



Environment
Agency
Asiantaeth yr
Amgylchedd

Datganiad Manylion Amgylcheddol ar gyfer Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2

Cyhoeddwyd Chwefror 2012

Cynnwys

Datganiad Manylion Amgylcheddol ar gyfer Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru	2
Adran 1 – Cyflwyniad	2
Diben y Datganiad Manylion Amgylcheddol AAS hwn	2
Adran 2 – Cefndir	4
Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2	4
Asesiad Amgylcheddol Strategol	7
Adran 3 – Gwahanol Ddewisiadau	11
Adran 4 – Cyfuno Ystyriaethau Amgylcheddol	24
Yr Adroddiad Cwmpasu (Rhagfyr 2009)	24
Yr Adroddiad Amgylcheddol (Tachwedd 2010)	25
Adran 5 – Dylanwad yr Adroddiad Amgylcheddol	67
Adran 6 – Crynodeb o Ymgynghori ac Ymatebion / Sylwadau Allweddol	69
Adran 7 – Mesurau Arolygu'r Amgylchedd ar gyfer Gweithredu'r CRhT2 hwn	73
Effeithiau ar gyfanwydd safleoedd rhyngwladol	74
Effeithiau ar Gyflwr SoDdGA Biolegol a Chynefinoedd BAP	79
Archwiliad o'r Amgylchedd Hanesyddol a Safleoedd Daearegol	80
Peryglon	84
Cyfeiriadau	86
Tudalen wag o fwriad.Helaethiad I – Ymatebion i'r Ymgynghoriad / Camau Gweithredu ar gyfer Adroddiad yr Amgylchedd	87
Helaethiad II – Polisiâu MR yn Effeithio ar Gynefinoedd SoDdGA Dŵr Croyw / Daeareol Allweddol	90
Helaethiad III – RIGS a Safleoedd GCR	92

Adran 1 – Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Manylion Amgylcheddol (DMA) hwn yn dangos sut yr ystyriwyd materion amgylcheddol a sylwadau rhai â diddordeb (ymgyngoreion) wrth baratoi'r ail Gynllun Rheoli Traethlin (CRhT) ar gyfer Gorllewin Cymru. Mae'n esbonio sut y dewisodd Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru a'u partneriaid (awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Cadw a chyrrff eraill) y dewisiadau a ffafriwyd yn y cynllun. Aiff y datganiad hwn rhagddo i ddisgrifio'r trefnau lliniaru ac arolygu arfaethedig a bennwyd er mwyn rheoli ac arolygu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus.

Diben y Datganiad Manylion Amgylcheddol AAS hwn


Mae'r Datganiad Manylion Amgylcheddol hwn yn ofyniad dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliad 16). Mae'n ddogfen annibynnol sy'n cyflwyno sut ystyriwyd canfyddiadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) wrth ddatblygu CRhT2 Gorllewin Cymru. Dylid egluro bod dogfen y DMA yn ychwanegol at AA yr AAS, gyda'r unig fwriad o roi gwybodaeth lle mae canfyddiadau'r AA wedi newid o ganlyniad i newidiadau polisi CRhT a/neu o ganlyniad i gais am esboniadau neu ddiweddariadau i ganfyddiadau lle maent wedi newid (Darllenwch **Helaethiad I** – Ymatebion i'r Ymgynghoriad, ar y cyd â'r DMA hwn). Mae **Ffigur 1.1** yn tynnu sylw at gyfnodau'r AAS gan gynnwys sut mae'r DMA yn ffurfio rhan o AAS ar gyfer cynlluniau strategol fel CRhT.

Mae'r DMA hwn yn cynnwys 7 adran ohonynt gyda'r cyflwyniad hwn yn ffurfio Adran 1. Gweddill yr adrannau ac atodiadau yw:

- **Adran 2** Cefndir CRhT2 Gorllewin Cymru;
- **Adran 3** Gwahanol ddewisiadau (rhesymau dros ddewis y cynllun polisïau dewisol);
- **Adran 4** Cyfuno Ystyriaethau Amgylcheddol;
- **Adran 5** Dylanwad yr Adroddiad Amgylcheddol;
- **Adran 6** Crynodeb o Ymgynghori Allweddol ac Ymatebion / Sylwadau ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol; ac
- **Section 7 Adran 7** Mesurau Arolygu'r Amgylchedd ar gyfer gweithredu'r CRhT2 hwn.
- **Helaethiad I i III** sy'n rhoi gwybodaeth ategol ar gyfer y DMA hwn.

Ffigur 1.1

Dull Gweithredu'r AAS a Chamau'r CRhT2 hwn. Y cyfnodau yw trefn fewnol Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer AAS hefyd.



Adran 2 – Cefndir

Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2

Asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon cysylltiedig â phrosesau arfordirol yw CRhT gyda'r bwriad o leihau'r peryglon i'r amgylchedd cymdeithasol, economaidd, naturiol a hanesyddol trwy reoli'r draethlin yn effeithiol a chynaliadwy. Rhoddodd y CRhT ar gyfer Gorllewin Cymru sylw i'r materion hyn yng nghyd-destun ei leoliad sy'n cael ei ddisgrifio'n fyr yn adran hon y DMA. Caiff manylion llawn y man cychwyn amgylcheddol eu cyflwyno yn Adroddiadau Cwmpasu ac Amgylcheddol CRhT2 Gorllewin Cymru.

Amgylchedd CRhT2 Gorllewin Cymru

Mae CRhT2 Gorllewin Cymru yn cwmpasu'r arfordir a'r tir mawr o Benrhyn y Santes Ann ac Ynys Enlli i Ben y Gogarth ac mae'n cynnwys Ynys Môn. Gan gynnwys aberoedd, hyd lawn yr arfordir o fewn ardal astudiaeth CRhT2 Gorllewin Cymru yw tua 460km.

Gwlad fynyddig yn bennaf yw Cymru gydag ardaloedd cymharol fychan o wastadedd arfordirol a dyffrynnoedd llawr gwlad, yn cwmpasu 2.078 miliwn (M) hectar (ha) (tuag 20,000 km²), ac mae ganddi gyfanswm o ryw 1,280 km o forlin. Mae cymeriad morlin Gorllewin Cymru'n amrywio o drefi glan môr, porthladdoedd gweithredol a phorthladdoedd fferi, i gymunedau gwledig bach a darnau unig o arfordir. Mae'r morlin yn cynnwys golygfeydd garw ysblennydd heb eu difetha, gyda chlogwyni môr uchel, pentiroedd amlwg, baeau bach gyda thraethau o dywod neu raean, ogofâu, staciau craig ac ardaloedd o dwyni tywod amlwg. Dynodwyd llawer o'r morlin yn Arfordir Treftadaeth ac mae o werth diwylliannol, hanesyddol a daearegol sylweddol. Mae amryw ynsoedd oddi ar y morlin, gydag Ynys Môn yn y gogledd-orllewin fel y fwyaf. Mae ardal astudiaeth CRhT2 yn cynnwys morlin a dyffrynnoedd yn Siroedd Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Penfro, Powys ac Ynys Môn.

Ffurfiwyd arfordir Bae Ceredigion o gerrig clai a thywodfeini Ordofigaidd a Silwraidd sad. Bydd y tonnau gwynt mwy ac ymchwydd cefnforol yn symud o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain ym Môr Iwerddon trwy Sianel Sain Siôr. Mae amlygrwydd i donnau'n amrywio ymhob rhan o ardal yr astudiaeth, gyda Sir Benfro'n cysgodi rhai rhannau deheuol o Fae Ceredigion a'r amddiffyniad hwn yn cael ei gynyddu'n lleol gan y pentiroedd creigiog niferus fel Pen Caer a Thwyn Cemais. Ar hyd ochr ddeheuol Pen Llŷn daw'r arfordir yn fwy agored i'r tonnau mawr o'r de-orllewin.

Y porthladdoedd masnachol mwyaf nodedig o fewn ardal yr astudiaeth yw Caergybi ac Abergwaun. Y cylch trefol mwyaf yw dinas Bangor, yn y gogledd, gyda phoblogaeth o fwy nag un fil ar hugain.

Yn ogystal â'r Arfordir Treftadaeth a gwerthoedd diwylliannol, bendithiwyd gorllewin Cymru gydag amrywiaeth eithriadol o gynefinoedd ac mae'r planhigion ac anifeiliaid yn cynnwys llawer o rywogaethau nodedig. Mae llawer o'r rhywogaethau a chynefinoedd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol, Ewropeaidd neu

ryngwladol ac mae llawer o'r dirwedd arfordirol a'i bioamrywiaeth yn bwysig i'r economi lleol. Caiff safon uchel y fioamrywiaeth ar hyd morlin Cymru ei hadlewyrchu yng nghyfran uchel y safleoedd cydnabyddedig yn Ewropeaidd neu'n rhyngwladol sy'n cwmpasu cylchoedd helaeth o fôr ac arfordir. Mae modd dosbarthu safleoedd gwarchoddedig yng ngorllewin Cymru'n fras fel a ganlyn:

- Safleoedd arbennig sy'n cael eu gwarchod dan gytundebau rhyngwladol – Gwlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol (safleoedd Ramsar), Gwarchodfeydd Biosffer a Gwarchodfeydd Biogenetig;
- Safleoedd Natura 2000 sy'n cael eu gwarchod dan Gyfarwydddebau'r Comisiwn Ewropeaidd – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchoddedig Arbennig (AGA);
- Safleoedd arbennig sy'n cael eu gwarchod dan gyfraith y DU – Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Gwarchodfeydd Natur y Môr (GNM); a
- Safleoedd arbennig eraill – Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC) a Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI).

Caiff crynodeb cyffredinol o'r dynodiadau a gwarchodfeydd sydd yn CRhT2 Gorllewin Cymru ei gyflwyno yn Nhabl 2.1.

Tabl 2.1 Dynodiad Safleoedd a Gwarchodfeydd CRhT2 Gorllewin Cymru

Dynodiad y Safle	Arwynebedd y Safle (Hectarau)
Safleoedd Ramsar	653
Ardal Gwarchodaeth Arbennig Cyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE (AGA)	176,209
Ardal Cadwraeth Arbennig Cyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE (ACA)	488,530
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	40,466
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)	6,027
Gwarchodfeydd Natur y Môr (GNM)	1,324
Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI)	3,359


Mae'r cyfuniad o asedau amgylcheddol naturiol dethol, gyda chefnogaeth prosesau naturiol, cysylltiedig â'r CRhT arbennig hwn yn creu morlin o werth mawr, gydag economi twristiaeth o bwysigrwydd cenedlaethol. Fodd bynnag, byddai'n hawdd iawn gwneud drwg i'r asedau amgylcheddol presennol hyn gydag amddiffynfeydd arfordirol amhriodol.

Rerfynau CRhT2 Gorllewin Cymru

Seiliwyd CRhT2 Gorllewin Cymru ar rannu'r arfordir yn 20 Parth Datblygu Polisi (PDZ), fel sy'n cael eu cyflwyno yn **Ffigur 2.1**.

Caiff polisi ategol ei ddarparu ar gyfer pob PDZ ar dri chynnod. Mae'r cynnod cyntaf yn ymestyn o'r presennol i **2025**, yr ail gynnod o **2025 i 2055** a'r trydydd cynnod o **2055 i 2105**.

Ffigur 2.1 Terfynau a PDZ CRhT2 Gorllewin Cymru



Asesiad Amgylcheddol Strategol

Er mwyn sicrhau cyfuno ystyriaethau amgylcheddol drwy gydol datblygu'r CRhT, gwnaed AAS anstatudol yn dilyn gofynion Rheoliadau AAS (caiff Cyfarwyddeb AAS 2001/42/EC ei throsi i gyfraith y Deyrnas Unedig gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004) a gweithdrefn AAS fewnol Asiantaeth yr Amgylchedd (gwelwch **Ffigur 1.1**) (EA, 2010). Mae'r asesiad hwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw effeithiau'r CRhT a allai fod yn sylweddol ar yr amgylchedd yn cael eu hystyried drwy gydol ei ddatblygiad.

O fewn proses yr AAS, ac mewn ffordd sy'n cyfateb i'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio drwy gydol proses y CRhT, defnyddiwyd y term 'amgylchedd' i gwmpasu'r derbynyddion canlynol (ar sail y diffiniad yn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni, OS 1633 2004) ac Amcanion Cynaliadwyedd AAS sy'n cael eu cyflwyno yn **Nhabl 2.2**. Amcanion cynaliadwyedd yw'r offeryn hanfodol ar gyfer cymharu a phenderfynu wrth greu a dewis polisiau CRhT2. Seiliwyd yr amcanion ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru ar amcanion CRhT2 Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr cyffiniol sy'n rhedeg tua'r dwyrain o'r Gogarth (Halcrow, 2010) er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr unedau CRhT yn ogystal â chysondeb wrth asesu effeithiau posibl polisiau'r CRhT.

Mae proses yr AAS ar gyfer CRhT Gorllewin Cymru wedi cynnwys Adroddiad Cwmpasu; ac Adroddiad Amgylcheddol (AA) (**Atodiad E** i'r CRhT).

Tabl 2.2 Amcanion a Dangosyddion Cynaliadwyedd CRhT2 Gorllewin Cymru

Derbynyddion ac Amcanion AAS	Nodweddion sy'n dod o fewn yr amcan	Dangosydd	Targed
Bioamrywiaeth, Planhigion ac Anifeiliaid			
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol.	<ul style="list-style-type: none"> Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Safleoedd Ramsar ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Gwarchodfeydd Biogenetig a Biosffer 	Statws cadwraeth dywededig safleoedd cadwraeth rhyngwladol cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad.	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau rheoli erydiad / perygl llifogydd.
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella statws cadwraethol ffafriol safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol.	<ul style="list-style-type: none"> Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC) 	Statws cadwraeth dywededig safleoedd cadwraeth cenedlaetho cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad.	Dim dirywiad yn statws cadwraeth safleoedd dynodedig o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau rheoli perygl llifogydd / erydiad.
Osgoi effeithiau andwyol ar, gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol.	<ul style="list-style-type: none"> Cynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol 	Cynefin BAP sy'n bresennol.	Dim colled ym maint cynefin BAP.
Daeareg a Geomorffoleg			
Cynnal prosesau naturiol a chadw gwelededd a hygyrchedd amlygiadau daearegol drwy'r holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol.	<ul style="list-style-type: none"> Safleoedd Daearegol o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) cysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac erydiad GCR (Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol) RIGS (Safleoedd Daearegol Pwysig yn Rhanbarthol) 	Statws cadwraeth dywededig SoDdGA daearegol, GCR a RIGS cysylltiedig ag erydiad a llifogydd.	Dim dirywiad yn statws cadwraeth y safle dynodedig o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau rheoli erydiad / perygl llifogydd.
Cynnal a gwella nodweddion geomorffolegol nodweddion naturiol.	<ul style="list-style-type: none"> Traethau Cyfundrefnau twyni 	Nifer y nodweddion naturiol sydd ar hyn o bryd yn darparu swyddogaeth amddiffyn naturiol rhag llifogydd.	Colli dim nodweddion naturiol sydd ar hyn o bryd yn darparu swyddogaeth amddiffyn naturiol rhag llifogydd.
Dŵr			
Atal rhag llygru pridd a sicrhau dim dirywiad yn ansawdd dŵr.	<ul style="list-style-type: none"> Safleoedd tirlenwi (ffynhonnell EA), diwydiant sylweddol a safleoedd gwastraff peryglus, mwyngloddiau segur, tir a allai fod yn halogedig, dŵr ymdrochi dynodedig, dŵr arwyneb a dŵr codi (e.e. Parthau Diogelu Ffynonellau Dŵr 	Nifer y safleoedd llygru posibl sydd mewn perygl o lifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol.	Dim cynnydd yn y perygl i safleoedd llygru posibl sydd mewn perygl o lifogydd llanwol a/neu erydiad arfordirol o'i gymharu â pholisi 'gwneud

Derbynyddion ac Amcanion AAS	Nodweddion sy'n dod o fewn yr amcan	Dangosydd	Targed
	Codi) <ul style="list-style-type: none"> Pysgodfeydd masnachol a physgodfeydd cregyn (e.e. Ardaloedd Cynaeafu Pysgod Cregyn) 		dim'.
Cymeriad Tirwedd ac Amwynder Gweledol			
Gwarchod a gwella tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn cysylltiad â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro gydag Amcanion Cynllun Rheoli AHNE a Pharciau Cenedlaethol.	Newidiadau yng nghymeriad tirwedd a golygfeydd o fewn: <ul style="list-style-type: none"> Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Parciau Cenedlaethol Arfordiroedd Treftadaeth 	Cydymffurfio ag amcanion AHNE a Pharciau Cenedlaethol perthnasol i reoli perygl llifogydd llanwol / erydiad. Newid cymeriad tirwedd o fewn ardaloedd dynodedig.	Dim effeithiau andwyol ar gymeriad tirwedd o fewn safleoedd dynodedig o ganlyniad i newid mewn mesurau rheoli erydiad / perygl llifogydd.
Yr Amgylchedd Hanesyddol (Etifeddiaeth Ddiwylliannol)			
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo i asedau, safleoedd a'u hamgylchoedd rhestredig ac etifeddiaeth ddiwylliannol eraill pwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol.	<ul style="list-style-type: none"> Safleoedd Treftadaeth y Byd Henebion Cofrestredig (HC) (Cymru a Lloegr) Parciau a Gerddi Cofrestredig Adeiladau Rhestredig Ardaloedd Cadwraeth 	Ardaloedd o bwysigrwydd pensaernïol ac archeolegol sydd mewn perygl o erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd mewn perygl llifogydd llanwol / erydiad o ran nodweddion archeolegol sensitif i erydiad / llifogydd, o'i gymharu â'r polisi gwneud dim'.
Asedau Materol			
Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol.	<ul style="list-style-type: none"> Porthladdoedd, ierdydd cychod, angorfeydd, clybiau hwylio, llwybrau fferi a dyfrffyrdd, gwylwyr y glannau, badau achub ac achubwyr. Mynediad at y môr a mordwyo 	Nifer y gweithrediadau a gweithgareddau morol sy'n teimlo effaith erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer y gweithrediadau a gweithgareddau morol sy'n teimlo effaith erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Lleihau erydiad arfordirol a pherygl gorlifo isadeiledd hanfodol a sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn aros yn weithredol.	<ul style="list-style-type: none"> Traffyrdd, ffyrdd A, ffyrdd B, mân ffyrdd (lle bo cysylltiad yn fater allweddol), rheilffyrdd a gorsafoedd Meysydd awyr Meysydd awyr rhyngwladol Gorsafoedd pwmpio, gweithfeydd trin carthion, chwareli, cyfleusterau cynhyrchu trydan presennol (e.e. atomfeydd) ac is-orsafoedd Mynediad ar gyfer y gwasanaethau brys 	Nifer yr asedau isadeiledd allweddol sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer yr asedau isadeiledd allweddol sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.

Derbynyddion ac Amcanion AAS	Nodweddion sy'n dod o fewn yr amcan	Dangosydd	Targed
Defnydd Tir			
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo tir amaethyddol lle nad yw'n cyfyngu ar fioamrywiaeth.	Tir amaeth Graddau 1 – 3A	Graddau tir amaethyddol sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol i dir amaethyddol Graddau 1 – 3A.
Poblogaeth			
Rheoli ac addasu erydiad arfordirol a gorlifo ar gyfer pobl ac eiddo preswyl.	<ul style="list-style-type: none"> Eiddo unig Tai mewn pentrefi, trefi a dinasoedd glan môr Cymunedau 	Nifer yr eiddo preswyl sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer yr eiddo preswyl sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Rheoli ac addasu i erydiad arfordirol a gorlifo neu ddifrod i gyfleusterau cymunedol, adloniadol ac amwynderol allweddol.	<ul style="list-style-type: none"> Cyfleusterau cymunedol allweddol agored i niwed (e.e. meddygfeydd, ysbytai, cartrefi pobl oedrannus, ysgolion, siopau, eglwysi, llyfrgelloedd, prifysgolion ac ati) Cyfleusterau amwynderol allweddol (e.e. manau agored cyhoeddus ac ati) Cyfleusterau adloniadol allweddol (e.e. cyrsiau golff, traethau ymdrochi, promenadau ffurfiol, llwybrau beicio cenedlaethol, parciau gwledig, hawliau tramwy cyhoeddus, cestyll a cheyrydd ac ati) Mynediad at gyfleusterau cymunedol / amwynderol 	Nifer y gwerth cyfleusterau cymunedol, amwynderol ac adloniadol uchel sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer y cyfleusterau cymunedol, amwynderol ac adloniadol gwerth uchel sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Rheoli ac addasu i erydiad arfordirol a gorlifo er mwyn lleihau perygl i asedau a gweithgareddau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd.	Siopau, swyddfeydd, busnesau, ffatrioedd, warysau, ardaloedd a ddynodwyd i'w hadfywio, meysydd carafanau, meysydd awyr, safleoedd tynnu carreg a mwynau, sefydliadau milwrol ac ardaloedd cyflogaeth allweddol eraill.	Nifer yr asedau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer yr asedau diwydiannol, masnachol, economaidd a thwristaidd sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.
Lleihau perygl erydiad arfordirol a gorlifo i sicrhau bod asedau'r MoD yn aros yn weithredol.	<ul style="list-style-type: none"> Safleoedd MoD (gan gynnwys safleoedd gwaredu yn y DU) Safleoedd creiddiol a Meysydd Tanio 	Nifer safleoedd y MoD sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol.	Dim cynnydd yn nifer safleoedd y MoD sydd mewn perygl erydiad arfordirol a/neu lifogydd llanwol o'i gymharu â'r polisi 'gwneud dim'.

Adran 3 – Gwahanol Ddewisiadau

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r rhesymau dros ddewis y polisi ar gyfer pob PDZ (ar draws pob un o'r tri chyfnod) yng ngoleuni gwahanol ddewisiadau rhesymol eraill. Caiff y dewisiadau polisi oedd ar gael yn y CRhT eu hamlinellu yn **Nhabl 3.1** ynghyd â'r goblygiadau cyffredinol all fod gyda phob dewis.

Tabl 3.1 Dewisiadau a ddefnyddiwyd wrth Ddatblygu'r CRhT a Goblygiadau Cyffredinol All Fod

Dewis CRhT	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol
Cadw'r Llinell (HTL)	<ul style="list-style-type: none"> Gwarchod cynefin daearol tua'r tir o amddiffynfeydd (fel corstiroedd dŵr croyw, morlynnoedd halwynog, morlynnoedd dŵr croyw, coetir a glaswelltir); Cynnal tirweddau adeiledig; Gwarchod adnoddau dŵr croyw fel mannau tynnu; Atal llygredd o dir halogedig; Gwarchod asedau economaidd y tu ôl i amddiffynfeydd (asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol a masnachol); Gwarchod isadeiledd ac isadeiledd hanfodol; Gwarchod cymunedau; a Gwarchod asedau adloniadol, diwylliannol a hanesyddol tua'r tir o'r amddiffynfeydd. 	<ul style="list-style-type: none"> Torri ar brosesau arfordirol; Gwasgfa arfordirol (colli cynefin rhynglanwol); Atal erydiad arfordirol naturiol rhag amlygu nodweddion daearegol mewn SoDdGA Daearegol, na newid prosesau geomorffolegol mewn cyfundrefnau tafodau a thwyni tywod, gan beri i'r safleoedd fod mewn cyflwr anffafriol; Lleihau amwynder gweledol a golygfeydd o'r môr mewn rhai ardaloedd trwy godi amddiffynfeydd; Colli neu niweidio asedau treftadaeth ar y blaendraeth gyda chynnydd yn lefel y môr; a Hybu arferion defnyddio tir anghynaliadwy.
Symud y Llinell ymlaen (ATL)	<p>Fel Cadw'r Llinell (gwelwch uchod) ynghyd â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwarchod cynefin daearol tua'r tir o amddiffynfeydd (fel corstiroedd dŵr croyw, morlynnoedd halwynog, morlynnoedd dŵr croyw, coetir a glaswelltir); Cynnal tirweddau adeiledig; Atal llygredd o dir halogedig; Gwarchod asedau economaidd y tu ôl i amddiffynfeydd (asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol, masnachol); Gwarchod isadeiledd ac isadeiledd hanfodol; Gwarchod cymunedau; Gwarchod asedau adloniadol, diwylliannol a hanesyddol tua'r tir o'r amddiffynfeydd; Gwarchod asedau treftadaeth claddedig (gan gynnwys coedwig foddedig) yn y blaendraeth; a Darparu lle ychwanegol ar gyfer cymunedau. 	<p>Fel Cadw'r Llinell (gwelwch uchod) ynghyd â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Torri ar brosesau arfordirol; Lleihau maint cynefin rhynglanwol ar unwaith; Newid swyddogaeth y cynefinoedd arfordirol presennol; Mwy o wasgfa arfordirol; Newid geomorffoleg arfordirol, gyda phosibilrwydd cynnydd yng nghyflymder erydiad arfordirol o boptu'r llinell newydd; Posibilrwydd dirywiad yn y Statws / Potensial Ecolegol y corff dŵr dan sylw (h.y. trosiannol neu arfordirol); Effeithiau ar unwaith ar dirwedd ac amwynder gweledol; Tarfu ar asedau treftadaeth yn y blaendraeth; Tarfu ar asedau adloniadol yn y blaendraeth; ac Ansicrwydd effeithiau.

Dewis CRhT	Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol
Adlinio rheoledig (MR)	<ul style="list-style-type: none"> • Mudo cynefin arfordirol tua'r tir dan gynnydd yn lefel y môr; • Creu cynefin tir gwlyb yn unol â thargedau BAP y DU a lleol; • Creu cynefin ar gyfer bwydo adar, pysgod ifanc a chreaduriaid dyfrol eraill; • Lleihau perygl llifogydd / erydu rhai ardaloedd; • Hybu prosesau naturiol yr arfordir a chyfrannu at reoli'r arfordir yn fwy cynaliadwy; • Gwell amwynder gweledol a thirweddau naturiol ar hyd yr arfordir; • Gwella Statws / Potensial Ecolegol y corff dŵr oddi amgylch; a hefyd • Cynnal amwynder adloniadol y blaendraeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o lifogydd / erydu yn yr ardal a aildrefnwyd neu ardal y cilio rheoledig; • Newid cyflwr neu golli cynefin daearol / dŵr croyw tua'r tir o amddiffynfeydd; • Colli nodweddion a chymeriad tirwedd adeiledig; • Effaith ar ddyfrhaenau a thyniadau; • Halogi cyrff dŵr os ydynt o gwmpas tir halogedig; • Colli asedau economaidd y tu cefn i amddiffynfeydd (e.e. asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol a masnachol); • Colli isadeiledd ac isadeiledd hanfodol; • Colli cymunedau; a hefyd • Colli asedau adloniant a threftadaeth.
Dim ymyriad gweithredol (NAI)	<ul style="list-style-type: none"> • Mudo cynefinoedd rhynglanwol ac arfordirol tua'r tir dan gynnydd yn lefel y môr; • Creu cynefin tir gwlyb yn unol â thargedau BAP y DU a lleol; • Creu cynefin ar gyfer bwydo adar, pysgod ifanc a chreaduriaid dyfrol eraill; • Hybu amddiffynfeydd arfordirol naturiol; • Cyfrannu at reoli'r arfordir yn fwy cynaliadwy a naturiol; • Datblygu tirwedd arfordirol fwy naturiol; • Cynnal cyflwr ffatriol SoDdGA Daearegol. • Gwella Statws / Potensial Ecolegol y corff dŵr oddi amgylch; a hefyd • Cynnal amwynder adloniadol y blaendraeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Colli cynefinoedd dŵr croyw a daearol, a newidiadau mewn morlynnoedd halwynog pan fydd amddiffynfeydd yn methu; • Newid cyflwr neu golli cynefin daearol / dŵr croyw tua'r tir o amddiffynfeydd; • Colli nodweddion a chymeriad tirwedd adeiledig; • Dirywiad tirwedd gydag amddiffynfeydd dirywiol; • Effaith ar ddyfrhaenau a thyniadau; • Llifogydd / erydiad afreoledig yn arwain at lygredd o dir halogedig; • Colli asedau economaidd y tu cefn i amddiffynfeydd (e.e. asedau preswyl, diwydiannol, amaethyddol a masnachol); • Colli isadeiledd; • Colli cymunedau; • Perygl llifogydd / erydu afreoledig i eiddo preswyl a masnachol ac isadeiledd; • Colli asedau treftadaeth; ac • Ansicrwydd effeithiau ac amser i addasu.

O'u hystyried mewn cysylltiad â'r PDZ, hepgorwyd dewisiadau polisi ar unwaith os nad oeddent yn berthnasol neu os oedd yn amlwg nad oedd unrhyw hybwrw amlwg ond bod cyfyngiadau sylweddol. Caiff y polisiâu hirdymor neu weledigaeth

/ bwriad cyflawn ar gyfer PDZ arbennig a dewisiadau gwahanol a ystyriwyd ar gyfer y PDZ eu cyflwyno isod yn Nhabl 3.2 (y dylid ei ddarllen ar y cyd ag AA yr AAS i gael manylion penodol). I weld ystyriaeth fanwl o sut y cloriannwyd dewisiadau CRhT ar gyfer pob uned bolisi unigol, gwelwch **Atodiad A** i'r CRhT. Mae Adroddiad yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) (Hydref 2010, diweddarwyd Tachwedd 2011, Chwefror 2012) (**Atodiad G**) ar gyfer CRhT2 Gorllewin Cymru hefyd yn rhoi aseiad manwl o atebion eraill i effeithiau'r PDZ ar safleoedd *Natura 2000*.

Tabl 3.2 Dewisiadau Polisi Hirdymor (Gweledigaeth) ar gyfer PDZ a Gloriannwyd yn yr Adroddiad Amgylcheddol

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Aseiad
PDZ 1 Penrhyn y Santes Ann i Benrhyn Borough	
Bwriad y cynllun yw gadael i brosesau naturiol fodoli ar hyd morlin y PDZ hwn trwy NAI.	<p>Bydd polisi NAI yn galluogi i'r clogwyni môr dan dyfiant, un o nodweddion diddordeb ACA De Sir Benfro Forol, ddatblygu mewn ymateb i'r prosesau arfordirol ehangach a dal i ddarparu cyflenwad o waddod i ardaloedd rhynglanwol a morol. Ni fydd NAI yn effeithio ar y cynefinoedd creigiog rhynglanwol ac islanwol (ogofâu môr a chreigresi).</p> <p>Gallai fod perygl tymor hwy i eiddo yng nghymuned fechan Sain Ffraid. Caiff hyn ei ystyried yn hylaw ar raddfa leol. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn argymhell ystyried tynnu'r mur ar hyd cefn y bae bach hwn i ganiatáu datblygiad traeth naturiol. Cyfyd materion eraill o ran mynediad at yr ynysoedd. Ni fyddai bwriad Dim Ymyriad Gweithredol at ei gilydd yn atal gwelliannau lleol i'r ardaloedd glanio er mwyn sicrhau eu defnydd yn y dyfodol gyda chynnydd yn lefel y môr.</p> <p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar safleoedd <i>Natura 2000</i> na SoDdGA a nodweddion diddordeb BAP o ganlyniad i bolisi rheoli arfordir y PDZ hwn.</p>
Cynnal rheoli presennol yn y PDZ hwn.	Senario cymharol debyg oherwydd NAI yn y PDZ cyfan.
PDZ 2 Penrhyn Borough i Ddinas Fach	
Bwriad y cynllun yn y PDZ yw gadael i'r arfordir ymddwyn yn naturiol trwy NAI. Dim ond o flaen yr amrywiol anheddau y mae'r bwriad yn newid i gynnal cymunedau trwy ymyriad HTL a MR. Bydd y rhain yn digwydd yn y manau canlynol: Uned Bolisi 2.2 (HTL, HTL, MR) Yr Aber Bach; Uned Bolisi 2.4 2 (HTL, HTL, MR) De a Chanol Aberllydan; Uned Bolisi 2.5 (HTL, MR, NAI) Gogledd Aberllydan; Uned Bolisi 2.6 2 (HTL, HTL, MR)	<p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn dod â rhai buddiannau ecolegol a daearegol, er y gall rhai nodweddion hanesyddol fod mewn perygl (e.e. Bryngaer Rhathlan y Trwyn Du yn Aberllydan (Uned Bolisi 2.7). Bydd y polisiau HTL a MR at ei gilydd yn rhoi amddiffynfa hirdymor i'r pentrefi (e.e. Aberllydan a'r Aber Bach) ac isadeiledd. Gallai'r Caffi yn y maes parcio deheuol; Pinch Cottage, eiddo yn y maes parcio; ac amryw eiddo ym mhentref Niwngwl ar ben gogleddol y traeth fod mewn perygl erydiad trwy MR.</p> <p>Fodd bynnag, nid yw polisi HTL yn y PDZ hwn yn caniatáu i brosesau naturiol yr arfordir fodoli'n sylweddol ar y cyfan nac i gynefinoedd fel gwastadeddau tywod rhynglanwol addasu dan gynnydd yn lefel y môr. Felly, mae disgwyl effeithiau ar safleoedd <i>Natura 2000</i> (ACA Sir Benfro Forol),</p>

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Asesiad
<p>Allt Haroldston; Uned Bolisi 2.8 (HTL, MR, MR) Nolton Haven; Uned Bolisi 2.10 (MR, MR, MR) De Traeth Niwglw; Uned Bolisi 2.12 (MR, MR, MR) Pentref Niwglw.</p>	<p>nodweddion diddordeb SoDdGA (cynefinoedd / cymunedau rhynglanwol SoDdGA Arfordir Niwglw i'r Aber Bach a SoDdGA Arfordir Penmaen Dewi) a chynefinoedd BAP o ganlyniad i bolisi rheoli arfordir y PDZ hwn.</p> <p>Bydd erydu cysylltiedig â nodwedd diddordeb daearegol SoDdGA Arfordir Niwglw i'r Aber Bach yn digwydd yn gymharol arafach.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Mae modd dod i'r casgliadau cyffredinol nad yw senario polisi NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn rhoi sylw i'r bygythiad sylweddol i werth economaidd, cymdeithasol a threftadaeth yr ardal. Tra gallai'r polisi NAI ddod â rhai buddiannau ecolegol sylweddol, nid yw'r polisi ar ei ben ei hun yn gallu cyflawni cynaliadwyedd cytbwys gwerthoedd y PDZ hwn.</p>
PDZ 3 Dinas Fach i Ben Anglas	
<p>Y bwriad sy'n sail i'r cynllun yw gweithio tuag at arfordir yn gweithredu'n naturiol trwy NAI, cyfyngu ar unrhyw ymyriad pellach ar y draethlin a chefnogi gwerthoedd pwysig gwarchod natur a thirwedd yr ardal. Dim ond o flaen yr amrywiol anheddau y mae'r bwriad yn newid i gynnal cymunedau trwy ymyriad HTL a MR. Bydd y rhain yn digwydd yn y manau canlynol:</p> <p>Uned Bolisi 3.2(HTL, HTL, MR) Solfach Isaf; Uned Bolisi 3.3 (HTL, HTL, HTL) Harbwr Solfach; Uned Bolisi 3.5 (HTL, HTL, HTL) Porth Clais mewnol; Uned Bolisi 3.8 (HTL, MR, MR) Porth Mawr; Uned Bolisi 3.9 (MR, MR, MR) Abereiddi; Uned Bolisi 3.10 (HTL, HTL, HTL) Porth Gain; Uned Bolisi 3.11 (HTL, MR, MR) Aber Castell.</p>	<p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn dod â rhai buddiannau ecolegol a daearegol, er y gall rhai nodweddion hanesyddol fod mewn perygl (e.e. yr amryw gaerau cyn hanes). Bydd y polisïau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i'r pentrefi (e.e. Poth Gain), isadeiledd a rhai safleoedd hanesyddol.</p> <p>Fodd bynnag, yn debyg i PDZ 2, nid yw polisi HTL yn y PDZ hwn yn caniatáu i brosesau naturiol yr arfordir fodoli'n sylweddol ar y cyfan nac i gynefinoedd fel gwastadeddau tywod rhynglanwol addasu dan gynnydd yn lefel y môr. Felly, mae disgwyl effeithiau ar safleoedd <i>Natura 2000</i> (ACA Sir Benfro Forol), nodweddion diddordeb SoDdGA (cynefinoedd / cymunedau rhynglanwol SoDdGA Arfordir Penmaen Dewi) a chynefinoedd BAP o ganlyniad i bolisi rheoli arfordir y PDZ hwn.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Mae modd dod i'r casgliadau cyffredinol nad yw senario polisi NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn rhoi sylw i'r bygythiad sylweddol i werth economaidd, cymdeithasol a threftadaeth yr ardal. Tra gallai'r polisi NAI ddod â rhai buddiannau ecolegol sylweddol, nid yw'r polisi ar ei ben ei hun yn gallu cyflawni cynaliadwyedd cytbwys gwerthoedd y PDZ hwn.</p>

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Asesiad
PDZ 4 Pen Caer i Ben y Bal	
<p>Bwriad y cynllun yn y PDZ yw gadael i'r arfordir ymddwyn yn naturiol trwy NAI. Dim ond o flaen yr amrywiol anheddau y mae'r bwriad yn newid i gynnal cymunedau trwy ymyriad HTL a MR. Bydd y rhain yn digwydd yn y manau canlynol:</p> <p>Uned Bolisi 4.2 (HTL, HTL, HTL) Harbwr Abergwaun; Uned Bolisi 4.3 (HTL, MR, MR) Y Parrog a Gwaun Wdig; Uned Bolisi 4.5 (HTL, HTL, HTL) Hill Terrace; Uned Bolisi 4.6 (HTL, HTL, MR) Canol Cwm Abergwaun; Uned Bolisi 4.7 (HTL, HTL, HTL) Cei Cwm Abergwaun; Uned Bolisi 4.12 (HTL, HTL, HTL) Cwm-yr-eglwys; Uned Bolisi 4.14 (MR, MR, MR) Gorllewin Parrog Trefdraeth; Uned Bolisi 4.15 (HTL, HTL, MR) Parrog Trefdraeth.</p>	<p>Er y bydd rhannau o forlin yn cael eu rheoli trwy ymyriad, y farn yw, o dderbyn y pellter i safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol dynodedig allweddol, na fydd unrhyw gynefin yn cael ei golli yno o ganlyniad i'r polisiâu ar gyfer y PDZ hwn ac na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd hyn. Gallai MR arwain at golli ambell eiddo fel y clwb hwylio yn y Parrog, Trefdraeth a chynefin BAP. Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar safleoedd <i>Natura 2000</i> na nodweddion diddordeb SoDdGA o ganlyniad i bolisi rheoli arfordir y PDZ hwn.</p> <p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn effeithio ar rai nodweddion hanesyddol all fod mewn perygl erydiad. Bydd y polisiâu HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i'r amrywiol bentrefi, isadeiledd a rhai safleoedd hanesyddol ar hyd morlin y PDZ hwn.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Byddai NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn gadael i brosesau naturiol drechu a fyddai'n peri colli tir i gynnydd yn lefel y môr ac effeithiau hirdymor ar bentrefi ac isadeiledd, heb fanteision sylweddol i ddiddordeb gwarchod natur dan bolisi cyflawn o NAI ar gyfer y PDZ arbennig hwn.</p>
PDZ 5 Pen y Bal i Bencribach	
<p>Bwriad y cynllun ar hyd yr arfordir agored yw gadael i'r arfordir ymddwyn yn naturiol trwy NAI. Byddai angen rheoli trwy ymyriad HTL a MR yn aber Afon Teifi ar hyd y manau canlynol:</p> <p>Uned Bolisi 5.3 (MR, MR, MR) Twyni Poppit a Phen-yr-ergyd; Uned Bolisi 5.8 (HTL, HTL, HTL) Coronation Drive.</p>	<p>Mae'r polisi CRhT yn y PDZ hwn yn darparu amrywiaeth o bolisiâu ar hyd y morlin gan gynnwys NAI, HTL a MR, er na fyddai unrhyw effaith ar safleoedd <i>Natura 2000</i>. Gallai polisiâu HTL a MR beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai hyn beri creu cynefin ychwanegol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar safleoedd <i>Natura 2000</i> na nodweddion diddordeb SoDdGA o ganlyniad i bolisi rheoli arfordir y PDZ hwn.</p> <p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn dod â rhai buddiannau ecolegol a daearegol, er y gall rhai nodweddion hanesyddol fod mewn perygl (e.e. Caer Bentir (HR) yng Nghastell Tre-Riffith (Uned Bolisi 5.1)). Bydd y polisiâu HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i'r pentrefi (e.e. Aberteifi), isadeiledd (e.e. Coronation Drive) a rhai safleoedd hanesyddol.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Byddai NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn gadael i brosesau naturiol drechu a fyddai'n peri colli tir i gynnydd yn lefel y môr ac effeithiau hirdymor ar bentrefi ac isadeiledd. Fe allai fod manteision i fuddiannau gwarchod natur o ran safleoedd</p>

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Asesiad
	BAP dan bolisi cyflawn o NAI ar gyfer y PDZ arbennig hwn, er na fyddai'r polisi ar ei ben ei hun yn gallu cyflawni cynaliadwyedd cytbwys o werthoedd ar gyfer y PDZ hwn.
PDZ 6 Pencribach i Benrhyn Cei Newydd	
<p>Bwriad y cynllun ar hyd llawer o'r lan yw caniatáu datblygiad naturiol y draethlin, cynnal y gwerthoedd gwarchod natur a thirwedd a hefyd amgylchedd pwysig yr amrywiol gymunedau. O fewn hyn mae bwriad cynnal cymunedau trwy HTL a MR yn y manau canlynol:</p> <p>Uned Bolisi 6.2 (HTL, HTL, HTL) Aber-porth; Uned Bolisi 6.4 (HTL, MR, MR) Tre-saith; Uned Bolisi 6.6 (HTL, MR, MR) Llangrannog; Uned Bolisi 6.8 (HTL, NAI, NAI) Cwm Tydu.</p>	<p>Yn debyg i PDZ 5, mae polisi'r CRhT yn y PDZ hwn yn darparu amrywiaeth o bolisïau ar hyd y morlin gan gynnwys NAI, HTL a MR, er na fyddai unrhyw effaith ar safleoedd <i>Natura 2000</i> a SoDdGA. Gallai polisïau MR beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai hyn beri creu cynefin ychwanegol. Gall HTL a MR hefyd effeithio ar siâp a maint traethau.</p> <p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn dod â rhai buddiannau ecolegol a daearegol, er y gall rhai nodweddion hanesyddol fod mewn perygl (e.e. iardiau llongau yn Llangrannog (Uned Bolisi 6.6)). Bydd y polisïau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i Aber-porth, Tre-saith a Llangrannog.</p>
Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.	Yn debyg i PDZ 5, byddai NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn gadael i brosesau naturiol drechu a fyddai'n peri colli tir i gynnydd yn lefel y môr ac effeithiau hirdymor ar bentrefi ac isadeiledd. Fe allai fod manteision i fuddiannau gwarchod natur o ran safleoedd BAP dan bolisi cyflawn o NAI ar gyfer y PDZ arbennig hwn, er na fyddai'r polisi ar ei ben ei hun yn gallu cyflawni cynaliadwyedd cytbwys o werthoedd ar gyfer y PDZ hwn.
PDZ 7 Penrhyn Cei Newydd i Gilfach yr Halen	
<p>Nod y cynllun yw cynnal cymuned Cei Newydd, ardal bwysig ei harbwr a glan y môr, ynghyd â darnau o draeth trwy HTL a MR. Yn ogystal, mae'r cynllun yn cydnabod anhawster cynyddol cynnal amddiffynfa'r glannau a'r cyfle i adfer swyddogaeth naturiol y bae i gyfeiriad Garreg Ddu. Byddai hyn yn cynnal gwerthoedd gwarchod natur y draethlin, gan gefnogi addasu yn y dyfodol.</p>	<p>Yn debyg i PDZ 6, mae polisi'r CRhT yn y PDZ hwn yn darparu amrywiaeth o bolisïau ar hyd y morlin gan gynnwys NAI, HTL a MR, er na fyddai unrhyw effaith ar safleoedd <i>Natura 2000</i> a SoDdGA. Gallai polisïau HTL a MR beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai polisïau MR arwain at greu cynefin ychwanegol.</p> <p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn dod â rhai buddiannau ecolegol a daearegol, er y gall rhai nodweddion hanesyddol fod mewn perygl. Bydd y polisïau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i Fae Cei Newydd a Bae Cei Bach.</p>
Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.	Gyda senario Dim Ymyriad Gweithredol, byddai'r morlin o gwmpas Bae Cei Newydd a Bae Cei Bach yn newid yn eithaf sylweddol. Mae'r dref o gwmpas yr Harbwr yn dibynnu'n drwm ar ei hamddiffynfeydd, er nad yw cynnal amddiffyniad llawn i holl rannau'r ddau fae yn cael ei ystyried yn gynaliadwy yn y pen draw. Nodwyd hyn yn CRhT1 ac nid dyma'r dull rheoli presennol ac, felly, roedd angen agwedd addasadwy ar gyfer y PDZ hwn.

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Asesiad
PDZ 8 Gilfach yr Halen i Garreg Ti-pw	
<p>Nod y cynllun yw cynnal tref Aberaeron ac ardal hanfodol ei harbwr trwy HTL a MR, gyda'r bwriad o ganiatáu datblygiad naturiol y draethlin i gyfeiriad Bae Llanrhystud.</p>	<p>Yn debyg i PDZ 7, mae polisi'r CRhT yn y PDZ hwn yn darparu amrywiaeth o bolisiau ar hyd y morlin gan gynnwys NAI, HTL a MR, er na fyddai dim effaith ar safleoedd <i>Natura 2000</i> a SoDdGA. Gallai polisiau MR beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai hyn beri creu cynefin ychwanegol.</p> <p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn dod â rhai buddiannau ecolegol a daearegol, er y gall rhai nodweddion hanesyddol fod mewn perygl (e.e. Tŷ Pwyso, Beach Parade (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 8.2)). Bydd y polisiau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i Aberaeron.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Y mater pwysig ar hyd y darn hwn o arfordir yw Aberaeron. Caiff Dim Ymyriad Gweithredol ei hepgor. Canlyniad peidio ag amddiffyn i bob diben yw colli'r dref a'r harbwr. Nodwyd bod Aberaeron yn hanfodol i ffyniant y rhanbarth.</p>
PDZ 9 Carreg Ti-pw i Sarn Gynfelyn	
<p>Prif fwriad y cynllun yw cynnal amddiffynfa yn Aberystwyth trwy HTL a MR, wrth ganiatáu datblygiad naturiol yr arfordir mewn ardaloedd cyfagos.</p>	<p>Yn debyg i PDZ 8, mae polisi'r CRhT yn y PDZ hwn yn darparu amrywiaeth o bolisiau ar hyd y morlin gan gynnwys NAI, HTL a MR, er na fyddai unrhyw effaith ar safleoedd <i>Natura 2000</i> na SoDdGA. Gallai polisiau MR beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai hyn beri creu cynefin ychwanegol.</p> <p>Bydd y polisi NAI hirdymor yn dod â rhai buddiannau ecolegol a daearegol, er y gall rhai nodweddion hanesyddol fod mewn perygl (e.e. Tramffordd yn Aberystwyth (Uned Bolisi 9.2)). Bydd y polisiau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i Aberystwyth.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Tra byddai'n gyffredinol yn cyflawni amcanion mewn perthynas â swyddogaeth naturiol rhannau helaeth o'r parth, byddai Dim Ymyriad Gweithredol yn annerbyniol mewn cysylltiad ag Aberystwyth. Fodd bynnag, dangoswyd bod ymestyn bwriad rheoli presennol ar draws ardal Aberystwyth yn methu cyflawni amcanion craidd i'r un graddau.</p>
PDZ 10 Sarn Gynfelyn i Donfannau	
<p>Ystyrir bod materion cydgysylltiol pwysig dros y parth cyfan. Y mwyaf arwyddocaol yw'r polisi i adlinio'r lan ddeheuol ac amddiffyniad ôl i Afon Dyfi yn y dyfodol gyda dim ond dau leoliad ar hyd y PDZ hwn yn cael polisiau Dim Ymyriad Gweithredol hirdymor (Uned Bolisi 10.4 Ynys-las ac Uned Bolisi 10.19 Tonfannau).</p>	<p>Fe all datblygiad naturiol nodweddion diddordeb y cynefinoedd ecolegol dynodedig (safleoedd <i>Natura 2000</i>, SoDdGA) fel gwastadeddau tywod, morfa heli, glaswelltir gael ei gyfyngu'n anffafriol trwy HTL a MR. Gallai'r polisiau hyn beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai polisiau MR arwain at greu cynefin ychwanegol.</p> <p>Bydd MR yn effeithio ar rai safleoedd hanesyddol (e.e. Anheddau (Adeiladau Rhestredig) yn Nyffryn Dyfi (Uned Bolisi 10.6)) ac isadeiledd (e.e. rheilffyrdd).</p> <p>Bydd y polisiau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i bentrefi a rhai safleoedd hanesyddol ar hyd glannau'r PDZ hwn.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Byddai modd dod i'r casgliadau cyffredinol nad yw senario polisi NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn rhoi sylw i'r bygythiad</p>

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Asesiad
	sylweddol i werth economaidd, cymdeithasol a threftadaeth yr ardal. Tra gallai'r polisi NAI ddod â rhai buddiannau ecolegol sylweddol, nid yw'r polisi ar ei ben ei hun yn gallu dod â chynaliadwyedd cytbwys gwerthoedd ar gyfer y PDZ hwn.
PDZ 11 Tonfannau i Draeth Dyffryn	
<p>Un elfen bwysig sy'n llywio rheoli presennol y PDZ yw'r angen i ddal i warchod y Friog (Uned Bolisi 11.4 – 11.9) a'r Bermo (Uned Bolisi 11.14 – 11.16) (ac asedau allweddol eraill) trwy HTL a MR ynghyd â'r manau canlynol ychwanegol:</p> <p>Uned Bolisi 11.1 (HTL, HTL, HTL) Rola; Uned Bolisi 11.2 (MR, MR, MR) Llwyngwrl; Uned Bolisi 11.3 (HTL, HTL, HTL) Clogwyni'r Friog; Uned Bolisi 11.10 (MR, MR, MR) De Mawddach; Uned Bolisi 11.11 (HTL, HTL, HTL) Llyn Penmaen; Uned Bolisi 11.12 (HTL, MR, MR) Aber Uchaf; Uned Bolisi 11.13 (MR, MR, MR) Gogledd Mawddach; Uned Bolisi 11.18 (MR, MR, MR) Sunnysands; Uned Bolisi 11.19 (MR, MR, MR) Islawrffordd.</p>	<p>Fe all datblygiad naturiol nodweddion diddordeb y cynefinoedd ecolegol dynodedig (safleoedd <i>Natura 2000</i>, SoDdGA) fel gwastadeddau tywod gael ei gyfyngu'n anffafriol trwy HTL a MR. Gallai'r polisïau hyn beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai polisïau MR arwain at greu cynefin ychwanegol.</p> <p>Fe all cyflymder amlygu cysylltiedig â chydran diddordeb daearegol SoDdGA Glannau Tonfannau i'r Friog gael ei arafu.</p> <p>Bydd HTL yn peri colli'r Amddiffynfeydd yn erbyn Ymosodiad (HR) yn y Friog (Uned Bolisi 11.4). Bydd hyn yn digwydd oherwydd bod y safle tua'r môr o'r amddiffynfeydd a, thrwy gynnydd yn lefel y môr ac erydiad, mae'n debygol y bydd mwyafrif y safle hwn yn cael ei golli yn y trydydd cyfnod. Fe all rheilffyrdd gael eu colli mewn ymateb i'r ymyriadau rheoli arfaethedig, gan gynnwys rheilffyrdd yn y Bermo (Uned Bolisi 11.15), Gwastadgoed (Uned Bolisi 11.3) a Ro Wen (Uned Bolisi 11.4).</p> <p>Bydd y polisïau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i bentrefi a rhai safleoedd hanesyddol ar hyd glannau'r PDZ hwn.</p>
Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.	Byddai modd dod i'r casgliadau cyffredinol nad yw senario polisi NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn rhoi sylw i'r bygythiad sylweddol i werth economaidd, cymdeithasol a threftadaeth yr ardal. Tra gallai'r polisi NAI ddod â rhai buddiannau ecolegol sylweddol, nid yw'r polisi ar ei ben ei hun yn gallu dod â chynaliadwyedd cytbwys gwerthoedd ar gyfer y PDZ hwn.
PDZ 12 Traeth Dyffryn i Benychain	
<p>Ystyrir bod materion cydgysylltiol pwysig dros y parth cyfan o ran cael cydbwysedd rhwng ymyriad a Dim Ymyriad Gweithredol. Mae safleoedd HTL a MR yn cynnwys y manau canlynol:</p> <p>Uned Bolisi 12.2 i 12.6 Tafod deheuol Artro i Drwyn Llandanwg; Uned Bolisi 12.8 (HTL, HTL, HTL) Gwastadedd Harlech; Uned Bolisi 12.9 (HTL, HTL, MR)</p>	<p>Yn debyg i PDZ 11, fe all datblygiad naturiol nodweddion diddordeb y cynefinoedd ecolegol dynodedig (safleoedd <i>Natura 2000</i>, SoDdGA) fel gwastadeddau tywod a morfa heli gael ei gyfyngu'n anffafriol trwy HTL a MR, sydd hefyd yn berthnasol i nodweddion daearegol a gwerthoedd tirwedd ar hyd y darn hwn o forlin. Gallai polisïau MR beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai hyn beri creu cynefin ychwanegol.</p> <p>Gall HTL yn ystod yr ail gyfnod ar hyd Uned Bolisi 12.18 beri colli glannau cyfyngedig ar hyd y safle hwn sy'n gyffredinol heb eu hamlygu oherwydd eu bod ymhellach yn ôl a lefelau</p>

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Asesiad
<p>Talsarnau; Uned Bolisi 12.13 (HTL, HTL, HTL) Y Cob a Phorthmadog; Uned Bolisi 12.14 13 (HTL, HTL, HTL) Borth-y-gest; Uned Bolisi 12.16 (MR, MR, MR) Morfa Bychan; Uned Bolisi 12.17 (HTL, MR, MR) Traethellau Cricieth; Uned Bolisi 12.18 (HTL, HTL, MR) Harbwr Cricieth; Uned Bolisi 12.20 (HTL, HTL, HTL) Gorllewin Cricieth; Uned Bolisi 12.24 (HTL, MR, MR) Afon Wen.</p>	<p>traeth uchel. Bydd hyn yn peri effeithiau ar SoDdGA y Tiroedd a Glannau rhwng Cricieth ac Afon Glaslyn.</p> <p>Bydd NAI a MR yn effeithio ar rai safleoedd treftadaeth trwy erydiad gan gynnwys Eglwys Tanwg Sant (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 12.5); Pont Briwet (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 12.10); a Thŵr yr Arsyllfa (Adeilad Rhestredig) (Uned Bolisi 12.18). Gall amrywiol reilffyrdd gael eu colli mewn ymateb i'r ymyriadau rheoli arfaethedig fel MR ar hyd y PDZ hwn, tra gall NAI beri colli llwybr troed Afon Dwryd.</p> <p>Bydd y polisïau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i bentrefi a rhai safleoedd hanesyddol ar hyd y PDZ hwn.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Mae'r senario Dim Ymyriad Gweithredol ar gyfer y PDZ cyfan yn codi rhai materion o bwys o ran cynnal strwythur cymdeithasol ac economaidd yr ardal. Mae'r materion hyn yn codi mewn ardaloedd eithaf penodol o fewn y parth, tra bo'r senario hwn mewn cylchoedd eraill ac yn fwy cyffredinol yw briodol ac yn caniatáu datblygiad naturiol nodweddion pwysig y draethlin. Mewn gwirionedd mae'r senario Gyda Rheoli Presennol yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle mae'r prif faterion rheoli.</p>
PDZ 13 Penychain i Drwyn Cilan	
<p>Ystyrir bod materion cydgysylltiol pwysig dros y parth cyfan o ran cael cydbwysedd rhwng ymyriad a Dim Ymyriad Gweithredol. Mae safleoedd HTL a MR yn cynnwys y manau canlynol:</p> <p>Uned Bolisi 13.2 i 13.8 Aber-erch i Draeth Crugan; Uned Bolisi 13.11 i 13.13 Y Warren i Benbennar.</p>	<p>Fe all datblygiad naturiol nodweddion diddordeb y cynefinoedd ecolegol dynodedig (safleoedd <i>Natura 2000</i>, SoDdGA) fel gwastadeddau tywod gael ei gyfyngu'n anffafriol trwy HTL a MR, sydd hefyd yn berthnasol i werthoedd tirwedd ar hyd y darn hwn o forlin. Gallai polisïau MR beri colli cynefinoedd BAP, er y gallai hyn beri creu cynefin ychwanegol.</p> <p>Bydd NAI a MR yn effeithio ar rai safleoedd treftadaeth trwy erydiad (e.e. Gwersyll Pared Mawr (HR) ym Mhorth Ceiriad (Uned Bolisi 13.18)), tra byddai'r llwybr troed yn Nhraeth Crugan yn cael ei golli wrth greu ceg newydd Afon Penrhos yn y ddau gyfnod olaf o ganlyniad i bolisïau MR.</p> <p>Bydd y polisïau HTL a MR at ei gilydd yn darparu amddiffynfa hirdymor i bentrefi, isadeiledd a rhai safleoedd hanesyddol ar hyd y PDZ hwn.</p>
<p>Dewis polisi arall o NAI ar gyfer y PDZ cyfan.</p>	<p>Byddai modd dod i'r casgliadau cyffredinol nad yw senario polisi NAI ar gyfer y PDZ cyfan yn rhoi sylw i'r bygythiad sylweddol i werth economaidd, cymdeithasol a threftadaeth yr ardal. Tra gallai'r polisi NAI ddod â rhai buddiannau ecolegol sylweddol, nid yw'r polisi ar ei ben ei hun yn gallu dod â chynaliadwyedd cytbwys gwerthoedd ar gyfer y PDZ hwn.</p>
PDZ 14 Trwyn Cilan i Garreg Ddu	
<p>Bwriad y cynllun yn y PDZ yw gadael i'r arfordir ymddwyn yn</p>	<p>Ac eithrio Uned Bolisi 14.8, ar hyn o bryd mae'r morlin cyfan o fewn PDZ14 yn ddi-amddiffyn ac mae polisi'r CRhT yn y</p>

Dewis / Cynllun Polisi Hirdymor	Crynodeb o'r Asesiad
